Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Sut i Ddefnyddio Tabledi Hydoddol Potasiwm Permanganad

## Yr Adran Dermatoleg




**Sut i storio Permitabs® (tabledi hydoddol potasiwm permanganad)**

Rhaid cadw Permitabs®:

- Allan o olwg a chyrraedd plant
- Mewn lle oer, sych sydd wedi'i awyru'n dda, a'u cadw o'r golau
- Rhaid eu cadw o ddeunyddiau fflamadwy.
- Rhaid eu cadw yn y cynhwysydd gwreiddiol. PEIDIWCH â chymysgu'r Permitabs® na'r hydoddiant potasiwm permanganad gydag unrhyw sylweddau eraill. Dylid rhoi'r caead yn ôl yn dynn ar y Permitabs® yn syth ar ôl eu defnyddio.

**Beth ddylid ei wneud os caiff y potasiwm permanganad ei lyncu**

Os bydd rhywun yn llyncu'r Permitabs® (tabledi potasiwm permanganad) neu'r hydoddiant ar ddamwain, rhaid rinsio'r geg yn drylwyr â dŵr ac yfed digon o ddŵr. Cysylltwch â'r adran achosion brys agosaf ar unwaith.

**Beth ddylid ei wneud os bydd potasiwm permanganad yn mynd i'ch llygaid**

Golchwch eich llygaid ar unwaith gyda digonedd o ddŵr am hyd at 15 munud. Tynnwch lensys cyffwrdd os ydych yn eu gwisgo, ac agorwch eich llygaid yn llydan. Cysylltwch â'r adran achosion brys agosaf ar unwaith.

## Cyfeiriadau

Alliance Pharmaceuticals Limited. (2012). Taflen wybodaeth- Permitabs® tablets for the preparation of external solutions. Alliance Pharmaceuticals Limited: Chippenham

Joint Formulary Committee. (2014) *British National Formulary*. Rhifyn 68. Llundain: BMJ Group and Pharmaceutical Press.


***Addaswyd gyda chaniatâd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Ebrill 2026.***

## Beth mae hydoddiant potasiwm permanganad yn ei drin?

Mae potasiwm permanganad yn antiseptig. Fe'i defnyddir fel hydoddiant i lanhau a sychu cyflyrau croen sy'n rhedeg, fel ecsema a chlwyfau.

## Sut i baratoi hydoddiant potasiwm permanganad

Bydd angen paratoi'r hydoddiant potasiwm permanganad ac yna'i ddefnyddio'n syth. I baratoi'r hydoddiant, bydd angen y canlynol:

- Powlen neu fwced
- Bag sbwriel glân
- Jwg fesur
- Pâr o fenig tafladwy
- Vaseline®
- Dŵr oer/dŵr claear
- Tywelion papur
- Permitabs® (tabledi potasiwm permanganad hydoddol) – pelenni bach porffor, gydag ochrau gwastad, ar ffurf tabledi. **PEIDIWCH** â'u rhoi yn eich ceg.



| RHYBUDD! |
| --- |
| Permitabs® (tabledi potasiwm permanganad hydoddol) at ddefnydd allanol yn unig. **PEIDIWCH** â'u rhoi yn y geg. Mae Permitabs® yn niweidiol os cânt eu llyncu. |

Paratowch yr hydoddiant gan ddilyn y camau canlynol:

1. Leiniwch bowlen neu fwced â bag sbwriel glân i atal y potasiwm permanganad rhag staenio'r cynhwysydd
2. Gan ddefnyddio jwg fesur, mesurwch 4 litr o ddŵr oer neu ddŵr claear (tymheredd y corff) a'i arllwys i'r bowlen neu'r bwced sydd wedi'i leinio.
3. Gwisgwch fenig tafladwy i atal y croen rhag cael ei staenio.
4. Agorwch y cynhwysydd a chymerwch **UN** tabled Permitabs® allan ohono. Rhowch y caead yn ôl yn ddiogel ar y potyn Permitabs.
5. Ychwanegwch **UN** dabled Permitabs® at y bowlen neu'r bwced dŵr sydd wedi'i leinio.





Gan ddefnyddio’r llaw sydd â maneg arni, symudwch y dŵr o gwmpas i doddi'r dabled.

6. Bydd y dabled yn cymryd ychydig funudau i doddi. Bydd y dŵr yn troi'n lliw gwin coch.



7. Peidiwch â defnyddio'r hydoddiant potasiwm permanganad os yw'n gymylog neu wedi troi'n frown. Gwaredwch yr hydoddiant brown fel y disgrifir yn yr adran “Sut i waredu hydoddiant potasiwm permanganad” a pharatowch yr hydoddiant eto.

### Sut i ddefnyddio hydoddiant potasiwm permanganad

**1.** Paratowch yr hydoddiant potasiwm permanganad, ac yna'i ddefnyddio'n syth, fel y nodir yn yr adran "Sut i baratoi hydoddiant potasiwm permanganad."

**2.** Os ydych chi'n socian eich dwylo neu'ch traed, rhowch Vaseline® ar eich ewinedd i atal yr hydoddiant potasiwm permanganad rhag eu staenio.

Mwydwch ardal y croen yr effeithiwyd arni yn yr hydoddiant am 15 munud.



**3.** Cymerwch ofal i beidio â gollwng yr hylif ar ddillad, dodrefn na lloriau gan ei fod yn staenio.

**4.** Tynnwch yr ardal yr effeithiwyd arni allan o'r hydoddiant a sychwch yn ofalus gyda thywel papur. Gwaredwch unrhyw hydoddiant sydd ar ôl.



**5.** Defnyddiwch yr eli neu'r dresin a ragnodwyd i chi.

**6.** Bydd eich meddyg neu nyrs yn penderfynu pa mor hir y bydd eich triniaeth yn para. Os sylwch fod eich croen yn mynd yn sych a/neu'n llidiog, cysylltwch â'ch meddyg neu nyrs am gyngor.

### Sut i gael gwared ar hydoddiant potasiwm permanganad

Dylid tywallt yr hydoddiant potasiwm permanganad a ddefnyddiwyd i lawr draen allanol a glanhau'r bowlen neu'r bwced ar unwaith. PEIDIWCH Â gwaredu'r hydoddiant potasiwm permanganad drwy ei dywallt i lawr y toiled, y sinc na'r bath, gan ei fod yn staenio serameg.

Dylid dychwelyd unrhyw dabledi Permitabs® na ddefnyddiwyd i'ch fferyllfa leol i'w gwaredu.

RHYBUDD

**Perygl:** Niweidiol iawn os caiff ei lyncu.
**Peidiwch** â bwyta nac yfed tra'n defnyddio'r cynnyrch hwn.
**Peidiwch** â chymysgu'r tabledi na'r hydoddiant â sylweddau eraill.

Gall gynyddu tân: Ocsidydd.
**Peidiwch ag** ysmygu tra'n defnyddio'r cynnyrch hwn.
**Cadwch oddi wrth** ddeunyddiau hylosg.

Gwenwynig iawn i fywyd dŵr gydag effeithiau hirdymor.
Ni ddylid ei ryddhau i'r amgylchedd.
Rhaid gwaredu'r deunydd hwn a'i gynhwysydd fel gwastraff peryglus

**Peidiwch** â chyffwrdd â Permitabs® na'u defnyddio os oes gennych alergedd i botasiwm permanganad.
**Peidiwch** â gadael i'r hydoddiant potasiwm permanganad ddod yn agos at eich llygaid na mynd yn agos at y geg, y trwyn, y glust, yr organau cenhedlu na'r anws, gan y gallai achosi llid.
**Peidiwch** â bwyta, yfed nac ysmygu wrth ddefnyddio'r cynnyrch hwn.

**Am rafor o wybodeath ynghylan hydoddiant potasiwm permanganad, cystlltwch â:**
**ABB.Derm@wales.nhs.uk**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**